beacon

# Polisi Incwm Tai

**Rhif Polisi: P045**
**Diwygiad/Fersiwn: 1.1**
**Unigolyn sy'n Gyfrifol: Pennaeth Incwm Tai**
**Cymeradwyaeth y Bwrdd: Medi 2025**
**I’w Adolygu: Medi 2028**

# Cynnwys


1. Diben ... 3
2. Y pethau pwysig ... 3
3. Talfyriadau a Diffiniadau ... 3
4. Cynnwys y Polisi ... 4
   4.1 Atal ... 4
   4.2 Taliad Rhent Cyntaf ... 5
   4.3 Rheoli'r Broses Casglu Rhent ... 5
   4.4 Cyd-gontractau ... 6
   4.5 Cyfrif Rhent a Monitro Cynllun Talu ... 7
   4.6 Llwybrau Cyfeirio Ymhellach ... 7
   4.7 Rhoi Hysbysiadau Rhagnodedig ... 10
   4.8 Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Meddiant gan Landlordiaid Cymdeithasol ... 10
   4.9 Rhestr Wirio Contract Diogel a Chontract Safonol ... 10
   4.10 Gorchymyn Meddiant Llwyr (OPO) ... 11
   4.11 Gorchymyn Meddiant Gohiriedig (SPO) ... 11
   4.12 Methu â bodloni SPO ... 11
   4.13 Ymgeisio am Warant Troi Allan ... 11
5. Monitro a mesurau ... 12
6. Polisïau cysylltiedig ... 12
   6.1 Ffitrwydd i Fod yn Gartref (FFHH) ... 12
   6.2 Adleoli (symud dros dro) ... 13
   6.3 Cam-drin Domestig/Diogelu ... 13
   6.4 Twyll ... 13
   6.5 Cerbydau Modur/Parcio ... 13
   6.6 Olyniaeth ... 13
   6.7 Ansolfedd ... 13
   6.8 Seibiant ... 14
   6.9 Ailgodi Tâl ... 14
7. Deddfwriaeth berthnasol ... 14
8. Datganiad diogelu data ... 16
9. Y Gymraeg ... 16
10. Gwiriad Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ... 17
11. Cwynion, anghydfod a phryderon ... 19

## 1. Diben

Mae'r polisi hwn yn dangos sut y mae Beacon yn gweithredu i gyflawni ei ddiben casglu rhent, yn ôl diffiniad preswylwyr:

**'Helpwch fi i ddeall fy nhaliadau a thalu fy rhent'.**

Yn Beacon, ein nod yw darparu cartrefi a gwasanaethau sy'n fforddiadwy ac yn effeithlon o ran ynni i helpu i ddarparu sylfaen sefydlog i fywydau pobl ac i gynnal cymunedau lleol.

Er mai bwriad y polisi hwn yw darparu cipolwg hygyrch ar sut y mae Beacon Cymru yn rheoli rhai o'r sefyllfaoedd amrywiol a niferus a all ddod i law wrth reoli contractau meddiannaeth, rydym yn cynorthwyo Deiliaid Contractau i dalu eu rhent, taliadau gwasanaeth a chostau personol drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth sy'n atal ôl-ddyledion rhag cronni cyn, yn ystod, ac ar ôl i'r contract ddod i ben. Cydnabyddir y bydd atal ôl-ddyledion ac ymyrryd â nhw yn gynnar yn galluogi'r contract i barhau a bydd yn effeithlon o ran cost i'r Gymdeithas. Pan nodir rhwystrau cyfathrebu, cymerir camau rhesymol i hysbysu Deiliaid Contractau drwy ffyrdd amgen. Bydd y Deiliad Contract yn atebol ar y cyd ac yn unigol am unrhyw ôl-ddyledion rhent am y cyfnod y maen meddiannu'r eiddo fel Deiliad Contract. Mae hyn yn golygu bod Deiliaid Contractau yn gyfrifol ar y cyd ac yn unigol am dalu'r rhent a lleihau ôl-ddyledion.

## 2. Y pethau pwysig

Dyluniwyd ein hegwyddorion a'n ffordd o weithio ar y cyd â staff, preswylwyr, a phartneriaid i'n galluogi i sicrhau y caiff 'y pethau pwysig' eu hadlewyrchu yn ein gwaith o ddydd i ddydd. Cawsom wybod gan breswylwyr bod yr egwyddorion canlynol yn bwysig:

- 'Fy ngalluogi i gyrchu a deall y wybodaeth sy'n ymwneud â fy rhent ar adeg sy'n gyfleus i mi'.
- 'Gofyn i mi sut yr hoffwn iddynt gyfathrebu â mi'.
- 'Egluro beth rwy'n talu amdano, sut y caiff fy ngwasanaeth ei ddarparu a'i adolygu'.
- 'Rhoi gwybod i mi am y cymorth a'r cyngor sydd ar gael i mi'.
- 'Gwrando ar fy sefyllfa a'i deall, dangos empathi a thosturi drwy ddefnyddio dull cyson'.

## 3. Talfyriadau a Diffiniadau

| *Term* | *Diffiniad* |
|---|---|
| Dolen i Dalu | Mae Tai Beacon yn defnyddio URL Gwe drwy Allpay, sy'n cynnwys y gallu i bersonoli'r ddolen i gynnwys rhif cyfeirnod a/neu'r swm sydd angen i ddeiliad y contract ei dalu. Anfonir y ddolen at y preswylydd dros e-bost neu neges destun. Caiff y preswylydd ei ailgyfeirio at dudalen dalu ddiogel a gall ddefnyddio cerdyn credyd/ debyd i wneud y taliad. |
| Trefniant Talu Amgen | Trefniadau Talu Amgen - GOV.UK (www.gov.uk) |
| Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Meddiant | https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/protocol/pre-action-protocol-for-possession-claims-by-social-landlords |

| | |
|---|---|
| Rheoliad Budd-dal Tai 88 | 88.—(1) Yn ddibynnol ar baragraffau (3) a (5), os ceir newid mewn amgylchiadau unrhyw bryd rhwng gwneud hawliad a phenderfynu arno, neu yn ystod dyfarnu budd-dal tai, y gallai fod yn ddisgwyliedig rhesymol i'r hawlydd, neu unrhyw berson y mae symiau sy'n daladwy iddo fel budd-dal tai yn dderbyniadwy iddo neu ar ei ran, wybod amdano a allai effeithio ar hawl yr hawlydd i swm neu'r budd-dal tai neu ei hawl i dderbyn budd-dal tai, yna mae dyletswydd ar y person hwnnw i roi gwybod am y newid mewn amgylchiadau drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r swyddog penodedig |
| Allpay | Y Prif Ddatrysiad Talu \| allpay Limited |

# 4. Cynnwys y Polisi

## 4.1 Atal

Pan nodir cymorth arbenigol ar ba bynnag gam, gwneir atgyfeiriad i'r asiantaethau perthnasol. Mae Beacon yn gallu cyfeirio'n uniongyrchol at Gyngor ar Bopeth, Hawliau Lles a Chymorth i Denantiaid. I fodloni ein cyfrifoldeb o ran sicrhau bod Deiliaid Contract yn llwyr ddeall telerau'r contract, byddwn yn cymryd camau rhesymol i hysbysu Deiliaid Contractau drwy ddefnyddio'r dull cyfathrebu o'u dewis ac yn chwilio am ffyrdd amgen pan fo angen. Pan fo diffyg gallu, neu bosibilrwydd o ddiffyg gallu, i ddeall y contract, cymerir camau priodol i fynd i'r afael â hyn.

Yn ystod y cam llofnodi contract meddiannaeth, rhoddir gwybod i Ddeiliaid Contractau eu bod yn gyfrifol am dalu'r rhent a'r angen i wneud taliadau rheolaidd. Llunnir cynllun talu pwrpasol, a ddatblygir gyda'r Deiliad Contract, sy'n nodi'r dyddiad talu y mae'n ei ffafrio, amledd, dull, a'r swm ac yn sicrhau ei fod yn talu swm llawn y rhent a thaliadau gwasanaeth sy'n ddyledus dan y contract.

Gwneir amrywiaeth o ddulliau talu ar gael i'w wneud mor gyfleus ac mor syml â phosibl i breswylwyr dalu eu rhent. Dyma'r dulliau talu rhent presennol:

- Debyd uniongyrchol o unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu
- Drwy gardiau Allpay a roddir yn ôl yr angen
- Taliadau uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol neu'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ran y preswylydd i'r gymdeithas (os yw'r preswylydd wedi cael budd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol)
- Taliadau rhent cerdyn Credyd neu Ddebyd yn y swyddfa drwy Callpay
- Taliadau rhent cerdyn Credyd neu Ddebyd dros y ffôn drwy Callpay
- Archeb sefydlog o unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu
- Arian parod yn y swyddfa (yn unol â'n Polisi Atal Gwyngalchu Arian)
- Siec
- Dolen PayBy

Pan fo modd, byddwn yn gweithio'n agos gydag adrannau Budd-dal Tai yr awdurdod lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau i helpu i sicrhau bod preswylwyr yn cael y swm uchaf posibl o fudd-dal ac y caiff ei asesu a'i dalu cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn disgwyl i'n preswylwyr ymgysylltu â'r adran Budd-dal Tai a'r Adran Gwaith a Phensiynau a darparu gwybodaeth yn brydlon pan ofynnir amdani.

Nodir y gallai Deiliad y Contract hawlio budd-daliadau eraill i'w helpu i sefydlu yn ei gartref newydd. Gwneir atgyfeiriadau i asiantaethau perthnasol i gynyddu incwm a hawliau'r Deiliad Contract i'r swm uchaf posibl.

Dylid rhoi gwybodaeth i'r Deiliad Contract ynghylch sut a phryd y gall dalu ei rent, pwysigrwydd taliadau rhent a goblygiadau peidio â thalu.

Pan fo Deiliaid Contractau yn hawlio Credyd Cynhwysol a phan nodir bregusrwydd Haen 1 neu 2 (Atodiad 2), mae darpariaeth ar gyfer trefniant talu amgen (APA) a chaiff yr elfen cost tŷ ei thalu'n uniongyrchol i'r Landlord. Diben hyn yw ceisio amddiffyn y Deiliad Contract rhag cronni ôl-ddyledion ac felly torri amodau'r contract. Rhoddir gwybod i'r Deiliad Contract am hyn. Pan na chafwyd llwyddiant wrth gysylltu, anfonir llythyr sy'n hysbysu'r Deiliad Contract am ein bwriad i gymhwyso Trefniant Talu Amgen a'r opsiynau sydd ar gael.

### 4.2 Taliad Rhent Cyntaf

Mae Cyfanswm y Swm Wythnosol neu Fisol (yn ddibynnol ar y contract) yn daladwy ar ddechrau'r wythnos (dydd Llun) neu ddechrau'r Mis (1af). Telir y taliad cyntaf ar ddyddiad dechrau'r contract. Dylid gwneud taliadau yn unol â'r dull, amledd, swm a'r dyddiad o ddewis y Deiliad Contract fel y'u nodir yn y cynllun talu gwreiddiol neu'r un mabwysiedig. Dylai Deiliad Contract sy'n gymwys am Fudd-dal Tai sy'n gorgyffwrdd (run-on), blaenswm Credyd Cynhwysol neu gronfa atal digartrefedd, pan fo'n briodol, ddefnyddio'r cymorth ariannol hwn i dalu'r rhandaliad rhent cyntaf.

### 4.3 Rheoli'r Broses Casglu Rhent

Cydnabyddir y gall Deiliaid Contractau brofi newidiadau yn eu bywydau a allai arwain at drafferthion ariannol sydd â'r posibilrwydd o effeithio ar daliadau rhent. Wrth reoli'r broses casglu rhent, mae'n bwysig dangos empathi at amgylchiadau pobl a pheidio â beirniadu pobl am y penderfyniadau a wnânt a all fod yn wahanol i'n rhai ni. Rydym yn gweithio'n galed i wreiddio diwylliant o garedigrwydd a thosturi, i feithrin cysylltiadau dibynadwy ac i ddangos parodrwydd i weithio gyda Deiliaid Contractau i wella eu hamgylchiadau.

Mae Beacon Cymru yn cydnabod yr hyn sy'n bwysig i breswylwyr o ran cyfrifon rhent a chaiff hyn ei adlewyrchu yn ein hegwyddorion (adran 2). Yn sgil hyn, rydym yn dilyn y camau hyn wrth reoli cyfrifon rhent:

- Deall a chofnodi sefyllfa ariannol y preswylydd
- Monitro'r ysgogiadau a allai achosi caledi ariannol
- Cytuno ar y camau i'w cymryd gan breswylwyr a landlord
- Cynnal cyfathrebu rheolaidd drwy ddefnyddio dull dewisol y preswylydd
- Gosod cyfrifon rhent gyda gwybodaeth gywir o'r dechrau un
- Gwneud data hanfodol yn hygyrch
- Egluro'r rhent a'r taliadau yn glir

Tynnodd breswylwyr sylw at bwysigrwydd dangos empathi mewn sefyllfaoedd anodd a bod angen amser a hyblygrwydd o ran opsiynau talu ar yr adegau hyn.

Disgwylir i swyddogion ddefnyddio gwybodaeth, ffeithiau a'u disgresiwn ym mhob achos a ddaw i law.

I weithio drwy'r camau, mae'n bwysig bod preswylwyr yn diweddaru Beacon Cymru o ran newidiadau i'w hamgylchiadau ariannol a allai effeithio ar daliadau rhent. Mae'r rhain yn cynnwys y pethau hyn ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: diweithdra, gweithio llai o oriau, gorddyledusrwydd, newid mewn cyflogaeth, dechrau swydd newydd, etifeddiaeth neu ffawdelw, newid budd-dal neu newid i ddyddiad cyflog. Gallai newid i drefniant yr aelwyd hefyd effeithio ar daliadau rhent, sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain: rhywun yn gadael y cartref neu'n ymuno â'r cartref, plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 18 mlwydd oed neu aelod newydd i'r teulu.

Pan fo Deiliaid Contractau yn hawlio Credyd Cynhwysol a phan nodir bregusrwydd Haen 1 neu 2, mae darpariaeth ar gyfer cais 'trosglwyddo' fel y telir y costau tai yn uniongyrchol i'r Gymdeithas drwy Daliad a Reolir i'r Landlord (MPTL) a/neu Ddidyniadau Trydydd Parti (TPD) i ad-ennill rhent ac/neu unrhyw ôl-ddyledion rhent.

Pan fo Deiliaid Contractau yn gymwys am Fudd-dal Tai ac yn cael hwn i'w cyfrif eu hunain ac mae ôl-ddyledion am gyfnod hirach nag wyth wythnos, gall y Gymdeithas ofyn i'r adran Budd-daliadau Tai dalu unrhyw hawliaeth yn uniongyrchol i'r Gymdeithas.

Yn debyg, gellir gofyn am Ddidyniad Trydydd Parti o fudd-daliadau eraill, er enghraifft, Lwfans Ceisio Gwaith (JSA), Lwfans Cymorth Cyflogaeth (ESA) a Chymorth Incwm (IS) a Chymhorthdal Incwm (IS), pan fo ôl-ddyledion yn bodoli ers wyth wythnos neu hirach.

Mae'n rhaid cofnodi pob gohebiaeth a chysylltiad â'r Deiliad Contract ar y system rheoli tai ynghyd ag unrhyw gytundeb neu unrhyw wybodaeth arall a all fod yn berthnasol i adennill rhent. Bydd Beacon Cymru yn diwygio Cynlluniau Talu i adlewyrchu unrhyw gytundebau newydd.

Caiff cyfrifon rhent eu monitro'n rheolaidd yn ôl y cynllun talu y cytunwyd arno i nodi taliadau a fethwyd. Bydd Beacon Cymru yn ysgrifennu, anfon neges destun ac/neu yn ymweld â Deiliaid Contractau i ddeall y sefyllfa a chynorthwyo i atal rhagor o ôl-ddyledion.

Pan fo angen, mae'n rhaid cyfathrebu â'r holl ddeiliaid contractau ar y cyd yn unigol. (Mae S48.1 y ddeddf RHW yn nodi 'pan gyfeirir at y Deiliad Contract, ac eithrio pan nodir yn wahanol, mae'n golygu'r Deiliad Cyd-gontract).

## 4.4 Cyd-gontractau

Pan fo contract meddiannaeth yn gyd-gontract, bydd pob preswylydd yn gyfrifol ar y cyd ac yn unigol am yr holl gyfrifoldebau a rhwymedigaethau dan y contract. Mae hyn yn golygu pan dorrir telerau'r contract mewn unrhyw ffordd, mae gan Beacon Cymru yr hawl i gymryd camau yn erbyn un a/neu bob un o'r preswylwyr a enwyd ar y contract.

Hyd at yr adeg y caiff preswylydd/preswylwyr a enwyd ar y contract eu rhyddhau o'u rhwymedigaethau dan y contract, hyd yn oed os ydynt wedi symud o'r eiddo / heb fod yn bresennol ers peth amser, byddant yn parhau i fod yn atebol dan delerau'r contract ar gyfer unrhyw doriadau i'r telerau a'r

colledion yn sgil hynny. Felly, gallant fod ynghlwm ag unrhyw achosion cyfreithiol a all gael eu trefnu gan Beacon Cymru.

Os yw preswylydd yn dymuno cael ei dynnu i ffwrdd o gontract meddiannaeth ar y cyd, mae'n rhaid iddo wneud hynny drwy ysgrifennu i Beacon Cymru a deiliad arall y contract ar y cyd i hysbysu'r ddau barti am y dyddiad yr hoffai gael ei dynnu i ffwrdd o'r contract ar y cyd. Bydd Beacon Cymru hefyd yn cysylltu â'r deiliad contract ar y cyd arall i gadarnhau bwriad y person arall i gael ei dynnu i ffwrdd o'r contract ar y cyd a'r dyddiad y bydd hyn yn digwydd.

Pan ofynnir am gydsyniad i Ddeiliad Contract newydd ymuno â chontract, bydd Beacon Cymru yn gofyn i'r holl daliadau rhent a'r ôl-ddyledion sy'n ddyledus dan y contract gael eu talu'n llawn cyn y rhoddir cydsyniad am gontract ar y cyd. Dan amgylchiadau eithriadol, gall y Sefydliad ddangos disgresiwn fesul achos i gytuno arno gan y Pennaeth Incwm Tai/Pennaeth Cymdogaethau.

### 4.5 Cyfrif Rhent a Monitro Cynllun Talu

Caiff cynlluniau talu eu monitro'n ddyddiol, a chysylltir â'r Deiliad Contract pan fo taliad yn wahanol i'r cynllun y cytunwyd arno.

Efallai y bydd adegau pan na fydd Deiliaid Contractau'n gallu bodloni eu cynlluniau talu y cytunwyd arnynt. Bydd y landlord yn cysylltu â'r Deiliad Contract cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl i wneud hynny i ddeall a thrafod y rheswm dros fethu'r taliad neu newid y dull talu, swm y taliad neu amledd y taliad. Bydd y cynghorydd talu/swyddog tai cymunedol yn cynnig cymorth a chyngor i ddatblygu cynllun talu newydd os oes angen.

Pan mae yna gydsyniad amlwg neu resymau cyfreithiol, bydd Beacon yn ymgysylltu ag asiantaethau cymorth a chyngor yn rheolaidd i ddatrys penderfyniadau ynghylch budd-daliadau. Bydd manylion a roddir gan Ddeiliaid Contractau, adrannau'r Llywodraeth, ac asiantaethau cymorth a chyngor yn dylanwadu ar weithgarwch cyfeirio ymhellach.

### 4.6 Llwybrau Cyfeirio Ymhellach

Mae'n bwysig nodi mai arweiniad yw'r broses cyfeirio ymhellach hon ac ni all fod yn hollol berthnasol i bob sefyllfa a ddaw i ran Beacon Cymru. Fel sefydliad sy'n meddwl trwy systemau, mae pob aelod staff wedi'i rymuso i gymryd camau y mae o'r farn eu bod rhywle yn y canol o ran buddion gorau'r Deiliad Contract a Beacon Cymru. Rhaid i unrhyw wyriad rhag hyn gael ei gofnodi yn y system rheoli tai drwy gamau gweithredu ar rent.

Disgwylir i Swyddogion roi amserlen i bob cam fel bod y preswylydd yn ymwybodol o'r hyn y gellir ei wneud neu'r hyn sy'n rhaid ei wneud o fewn amserlen benodol.

Os daw'n glir, yn dilyn dadansoddiad rhwng y Deiliad Contract a'r Swyddog, bod y rhent yn anfforddiadwy, mae angen llenwi ffurflen incwm a gwariant sy'n nodi'n glir ym mha feysydd y mae fforddiadwyedd yn broblem. Os yw'r cartref yn anfforddiadwy, mae nifer o opsiynau sydd ar gael i'r preswylydd, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain: trosglwyddo, hysbysiad i ddod â'r contract i ben neu gynllun i gynyddu incwm a lleihau gwariant y preswylydd. Pan ganfyddir bod eiddo yn anfforddiadwy, cymerir camau cyn gynted ag y bo modd i atal ôl-ddyledion rhag cronni ymhellach gan nad yw hyn o fudd i'r Deiliad Contract na'r Gymdeithas.

Trwy gyfrwng y llwybr cyfeirio ymhellach a ddangosir isod, mae yna nifer o ffyrdd y gall Beacon Cymru gefnogi preswylwyr, yn cynnwys gwiriad budd-dal, taliad disgresiwn at gostau tai, y gronfa atal digartrefedd, atgyfeirio at gymorth a chyngor i denantiaid, cronfa galedi Beacon Cymru neu dalebau banc bwyd a thanwydd. Os nad yw preswylydd yn gallu dilyn y cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd a chytunwyd arnynt, yna gellid gwneud atgyfeiriad cymorth i denantiaid. Pan na allwn sefydlu ffordd o gynnal ymgysylltiad ac nad yw Deiliad Contract yn llwyddo i ddilyn y cynllun cytunedig, neu ei ddiwygio, nid oes unrhyw ddewis arall oni bai am ddilyn llwybr cyfreithiol a allai arwain at ddod â'r contract i ben, gweler adran 4.7.

Mae'r cynllun talu yn cynnwys gordaliadau. Os telir mwy na'r cynllun talu y cytunwyd arno, cysylltir dan yr amgylchiadau hyn i sicrhau nad yw'r gordaliad yn gamgymeriad nac yn deillio o ragor o oriau, codiad cyflog, etifeddiaeth neu ffawdelw gan y gallai'r pethau hyn oll effeithio ar gyllid y preswylydd.

Caiff tandaliadau eu monitro gan y cynllun talu fel nad yw ôl-ddyledion rhent yn cronni.

Pan nad yw'n bosibl datblygu cynllun talu oherwydd incwm preswylydd sy'n codi a gostwng yn ansefydlog, gall Beacon Cymru bennu cynllun gyda rhagor o hyblygrwydd. Er enghraifft, monitro'r swm yn unig, yn hytrach na'r dull, yr amledd a'r dyddiad.

Gall taliadau hwnt ac yma a thandaliadau rheolaidd olygu bod ôl-ddyledion rhent yn cronni er nad yw preswylwyr yn bodloni'r llwybr cyfeirio ymhellach ar gyfer 'diffyg talu' a ddangosir isod. Pan ddigwyddir hyn, gall Beacon Cymru ddatblygu llwybr amgen i gymryd camau cyfreithiol heb y tabl canlynol.

| **Ysgogi Cynllun Talu** | **Camau i'w cymryd** |
| --- | --- |
| Diffyg Talu | Cyn pen 7 diwrnod – Bydd Tai Beacon yn ymholi am yr hyn sydd wedi digwydd, ac yn cynnig opsiwn talu amgen, drwy neges destun, galwad ffôn, e-bost neu drwy ddull cyfathrebu o ddewis y preswylydd.<br><br>Os nad oes unrhyw gyswllt, bydd Tai Beacon yn parhau i geisio cysylltu. |
| $2^{il}$ ddiffyg taliad a dim cynllun talu wedi'i gadarnhau | Cyn pen 7 diwrnod ar ôl yr $2^{il}$ ddiffyg taliad – Anfonir llythyr yn cynnig cymorth ac opsiwn talu amgen. Pan fo'n berthnasol, gwneir cais am MPTL a/neu TPD. |
| $3^{ydd}$ diffyg taliad a dim cynllun talu wedi'i gadarnhau | Cyn pen 7 diwrnod ar ôl $3^{ydd}$ diffyg taliad – Cynhelir ymweliad â'r cartref. |
| Gordaliad | Cyn pen 10 diwrnod – Bydd Beacon yn 'cysylltu' drwy ddull cyfathrebu o ddewis y preswylydd. |
| Tandaliad $1^{af}$<br><br>Gall tandaliadau amrywio mewn maint; gall tandaliadau sylweddol arwain at Dai Beacon yn dilyn y camau 'dim taliad' uchod. | Cyn pen 7 diwrnod – Atgoffir am y taliad ynghyd ag opsiwn talu amgen dros neges destun neu e-bost. |

| | |
|---|---|
| 2il Dandaliad | Cyn pen 7 diwrnod – Bydd Tai Beacon yn ymholi am yr hyn sydd wedi digwydd ac yn cynnig opsiwn talu amgen.<br><br>Os nad oes unrhyw gyswllt, bydd Tai Beacon yn parhau i geisio cysylltu. |
| 3ydd Dandaliad neu ragor (gyda 3 mis / 14 wythnos o ôl-ddyledion) | Cyn pen 7 diwrnod - Ymweld â'r Cartref. |
| Pan fo ôl-ddyledion rhent cyfwerth â 3 mis neu 14 wythnos ac nid oes cynllun ad-dalu ar waith. | Cwblheir rhestr wirio cyn-NOSP, a chyhoeddir Hysbysiad Ceisio Meddiant (NOSP).<br>Dyma rai o'r opsiynau:<br>**RHW23 – Contractau Diogel**<br>**RHW20 – Contractau Safonol**<br>Ar gyfer ôl-ddyledion rhent difrifol (dros 8 wythnos / 2 fis)<br>**RHW21 – Contractau Rhagarweiniol, Safonol a Gwaharddedig**<br>Ar gyfer ôl-ddyledion rhent difrifol (dros 8 wythnos / 2 fis)<br>**Pan ddefnyddir RHW20 neu RHW21, mae angen i ôl-ddyledion fod yn ddyledus ers 8 wythnos / 2 fis**<br><br>Mae'r holl hysbysiadau ar gael yma:<br>https://senedd.wales/media/z3cfrzjn/sub-ld15008-e.pdf |
| Rhoddwyd hysbysiad, mae ôl-ddyledion rhent yn fwy na 3 mis / 14 wythnos ac nid oes cynllun ad-dalu wedi'i ddatblygu. | Cwblheir y Protocol Cyn Llys a gwneir cais am wrandawiad. Cais am ad-daliad llawn neu gynllun ad-dalu y cytunwyd arno.<br><br>Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Meddiant gan Landlordiaid Cymdeithasol (justice.gov.uk) |
| Heb gytuno ar ad-daliad | 10 diwrnod cyn gwrandawiad yn y llys, bydd Tai Beacon yn anfon llythyr gyda'r dyddiad llys. |
| Gwrandawiad Llys | Bydd Tai Beacon yn bresennol yn y Gwrandawiad Llys i gyflwyno unrhyw dystiolaeth berthnasol. |
| Canlyniad y gwrandawiad llys | Bydd Tai Beacon yn cadarnhau canlyniad y Llys i'r preswylydd yn ysgrifenedig. |
| Diffyg taliad cyntaf Gorchymyn Meddiant Gohiriedig (SPO) ac ni fodlonir y rhent (drwy gynllun y cytunwyd arno). | Cyn pen 7 diwrnod – Bydd Tai Beacon yn gofyn am daliad drwy anfon neges destun, galwad ffôn, e-bost neu ddefnyddio dull cyfathrebu o ddewis y preswylydd. |
| Ail daliad y Gorchymyn Meddiant Gohiriedig (SPO) ac ni fodlonir y rhent (drwy gynllun y cytunwyd arno). | Gall Tai Beacon fwrw ymlaen â Gwarant Troi Allan. |

| | |
|---|---|
| Gwrandawiad Warant Troi Allan | Bydd Tai Beacon yn bresennol yn y Gwrandawiad Llys i gyflwyno unrhyw dystiolaeth berthnasol. |
| Canlyniad y Gwrandawiad Llys | Bydd Tai Beacon yn rhoi gwybod i'r preswylydd am y dyddiad y bydd beili yn galw draw, caiff cloeon eu newid, a daw'r contract i ben. |

### 4.7 Rhoi Hysbysiadau Rhagnodedig

Cyn rhoi'r Hysbysiad Rhagnodedig yn unol â math y contract sydd gan y preswylydd a'r rheswm dros dorri amodau'r contract, dylai manylion yr achos ôl-ddyledion gael eu paratoi gan Swyddog a'u hadolygu gan Uwch Swyddog Tai neu Reolwr i bennu pa mor briodol yw rhoi'r Hysbysiad Rhagnodedig. Pan fo un o'r canlynol yn berthnasol:

- Rhent heb ei dalu o hyd
- Ni wneir taliadau cytunedig i ad-dalu ôl-ddyledion rhent
- Methu â thalu'r swm y cytunwyd arno o hyd
- Pob ymgais i gysylltu yn rhai aflwyddiannus

Bydd swyddogion yn sicrhau y cadwyd at y protocol cyn-NOSP ac yn ceisio cadarnhad gan y Pennaeth Incwm Tai y gellir rhoi hysbysiad o fwriad i adfeddu.
Pennir math yr hysbysiad gan fath y contract a ddelir.

### 4.8 Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Meddiant gan Landlordiaid Cymdeithasol

Bydd Beacon Cymru yn dilyn y Protocol Cyn Gweithredu (Atodiad 3) oherwydd gallai methu â'i ddilyn arwain at y llys yn gosod sancsiynau ar y Gymdeithas, er enghraifft, dirwy neu ddod â'r gwrandawiad i ben.

### 4.9 Rhestr Wirio Contract Diogel a Chontract Safonol

Cyn rhoi'r Hysbysiad Rhagnodedig, dylid cwblhau'r Rhestr Wirio Contract Diogel a Chontract Safonol gyda'r holl adrannau perthnasol i sicrhau ein bod wedi cydymffurfio â'r gofynion Statudol dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru 2022 (Atodiad 4).

Pennu'r canlyniad Gorchymyn Llys delfrydol –

- Gorchymyn Meddiant Llwyr
- Gorchymyn Meddiant Gohiriedig
- Costau llys
- Dyfarniad Arian neu Ddyfarniad Llys Sirol
- Ad-dalu'r swm sy'n ddyledus
- Gohirio ar delerau

Pan ysgwyddir costau cyfreithiol, ac mae'r Deiliad Contract yn colli'r achos, bydd Beacon Cymru yn ceisio adennill y rhain yn unol â'r broses ail-godi ac adennill arferol.

### 4.10 Gorchymyn Meddiant Llwyr (OPO)

Yn y gwrandawiad llys, gall y Gymdeithas ddymuno gofyn am feddiant llwyr neu ymhen amser penodol. Gorchymyn Meddiant Llwyr (OPO) yw'r unig opsiwn os defnyddir Sail 8 neu 21, gan fod y ddau'n hanfodol.

### 4.11 Gorchymyn Meddiant Gohiriedig (SPO)

Ar ôl i'r swyddog ddychwelyd o'r llys a chaffael SPO, mae angen diweddaru'r achos gyda'r gorchymyn llys priodol drwy gofnodi cam gweithredu ar rent. Sefydlir cynllun talu y cytunwyd arno i adlewyrchu telerau'r gorchymyn.

Pan roddir SPO, bydd Beacon Cymru yn ei gadarnhau ar ffurf ysgrifenedig i'r Deiliad Contract ac yn cynnwys manylion y gorchymyn ac, os ydyw ar gael, y cynllun talu y cytunwyd arno.

Mae SPO yn ddilys am chwe blynedd o ddyddiad y gwrandawiad, ac ar ôl hynny, os yw'r ôl-ddyledion yn bodoli o hyd, mae'n rhaid i Beacon Cymru ofyn am ganiatâd y llys i orfodi'r gorchymyn adennill meddiant. Mae hyn yn gais ar wahân i'r llys.

Pan fydd yr ôl-ddyledion a'r costau wedi'u clirio, gall y Deiliad Contract wneud cais i'r llys ryddhau'r gorchymyn. Cyhyd â bod yr ôl-ddyledion a oedd yn ddyledus wedi'u talu, ni wrthwynebir y cais.

### 4.12 Methu â bodloni SPO

Cysylltir â Deiliaid Contractau nad ydynt yn bodloni SPO a chânt gynnig cymorth a chyngor. Datblygir cynllun talu newydd (efallai y bydd angen i'r llys newid telerau'r SPO) os oes angen, neu wneud cais i'r Deiliad Contract dalu'r ôl-ddyledion yn llawn. Bydd swyddogion yn trafod goblygiadau torri amodau gorchymyn, gan gynnwys y broses adennill yr eiddo, ôl-ddyledion ac unrhyw gostau sydd ynghlwm wrth ysgogi achos Llys.

### 4.13 Ymgeisio am Warant Troi Allan

Pan nad yw ymgais i ddatrys mater yn un llwyddiannus, bydd swyddogion tai yn chwilio am gadarnhad gan Reolwr Tai Cymunedol i ymgeisio am Warant Troi Allan.

Ar ôl adolygu'r holl opsiynau rhesymol, ac nid oes dewis amgen hyfyw, cynhelir cyfarfod rhwng y Rheolwr Tai Cymunedol a'r Swyddog i gaffael cydsyniad i geisio am y warant.

Pan fo llys yn dyfarnu OPO neu nad yw'r SPO yn cael ei fodloni, bydd Beacon Cymru yn ceisio am Warant Troi Allan fel y nodir uchod.

Rhoddir gwybod i Ddeiliad y Contract drwy lythyr a ddanfonir â llaw i'w hysbysu y gwnaed penderfyniad i geisio ei droi allan oherwydd achos o dorri amodau contract. Bydd Beacon Cymru yn hysbysu Tîm Opsiynau Tai'r Awdurdod Lleol am y penderfyniad ac unwaith eto'n cynghori Deiliad y Contract i chwilio am gyngor cyfreithiol annibynnol.

Ni fydd y penderfyniad troi allan yn cael ei wrthdroi fel arfer, oni bai yr ad-dalir y ddyled. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddisgresiwn i ystyried amgylchiadau eithriadol, a dylid trafod hyn gyda'r Rheolwr Tai Cymunedol.

Caiff yr holl achosion troi allan eu monitro a darperir adroddiad i'r Cyfarwyddwr Cartrefi a Chymunedau sy'n amlinellu manylion yr holl achosion troi allan sydd wedi digwydd, a hynny bob chwarter.

## 5. Monitro a mesurau

Bydd Beacon Cymru yn monitro mesurau sy'n ein helpu i ddeall a ydym ni'n bodloni'r diben diffiniedig yn adran 1. Bydd y mesurau hyn yn cynnwys:

- Pa gamau y'u cofnodir ar y cyfrifon rhent. Y balans ar adeg y cam hwnnw. Edrychir ar y rhain o fewn siart galluoedd.
- Cyfanswm yr ôl-ddyledion sy'n weddill ar ôl i gontract ddod i ben.
- Y dull talu mwyaf llwyddiannus.
- Camau a gymerwyd yn dilyn newid i amgylchiadau fel debyd uniongyrchol wedi'i ddychwelyd, neu hawliad budd-dal.
- Canran y rhent a gasglwyd o'i gymharu â'r taliad sy'n ddyledus, gan fonitro hyn ar sail sefydliad, ardal, cynllun ac yn unigol.
- Cywirdeb y data sydd gennym a all effeithio ar dalu rhent ac unrhyw wybodaeth goll. Er enghraifft, dewisiadau cysylltu, trefniant yr aelwyd, ffynonellau incwm, mathau'r budd-dal, anableddau, oedran, nifer yr ystafelloedd gwely, debyd uniongyrchol gweithredol, dewis o ran iaith a chynlluniau talu.
- Faint o alwadau ailadroddus a geir ar gyfer mater unigol.
- Gofyn am adborth rheolaidd gan breswylwyr ar ein gwasanaeth rhent.
- Mesur gwybodaeth a sgiliau ein staff yn y gwasanaeth rhent.

Mae Beacon yn aelod gweithredol o Rental Exchange. Rydym o'r farn y dylai pawb gael ei drin yn gyfartal, waeth a yw'n denant neu'n berchennog tŷ. Bwriad y fenter yw mynd i'r afael â'r heriau ariannol, digidol a hyd yn oed y rhai yn ymwneud ag allgáu cymdeithasol a ddaw i ran tenantiaid eiddo rhent yn aml, mewn cymhariaeth â pherchnogion tŷ. Drwy edrych ar ddata talu rhent yn yr un ffordd â data talu morgais. Bydd y fenter Rental Exchange yn ymgorffori hanes talu tenant yn ei ffeil gredyd heb unrhyw gost i'r darparwr tŷ na'r tenant. Y Fenter Rental Exchange | Gwybodaeth i Ddefnyddwyr | Experian Business

## 6. Polisïau cysylltiedig

### 6.1 Ffitrwydd i Fod Yn Gartref (FFHH)

Mae'r broses delio â Ffitrwydd i Fod yn Gartref (FFHH) wedi'i chynnwys yn y Polisi Rheoli Tai.

Yr unig adeg y mae modd gohirio atebolrwydd rhent yw pan nad yw'r eiddo yn ffit i fod yn gartref, a gellir ei bennu drwy orchymyn llys neu drwy gytuno ar hynny gyda'r Gymdeithas. Tan hynny, mae Deiliaid Contractau yn atebol am rent sy'n ddyledus ac ymdrinnir â diffyg taliadau dan y prosesau arferol. Gellir parhau i roi hysbysiad RHW23 ar gyfer ôl-ddyledion rhent a gronnwyd y tu hwnt i'r cyfnod nad oedd yr eiddo yn ffit i fod yn gartref, ond fe wneir hyn fesul pob achos unigol.

Os cefnogir honiad gan y Deiliad Contract nad yw'r eiddo yn ffit i fod yn gartref gan y Gymdeithas neu Farnwr, cyfrifoldeb y tîm Cynnal a Chadw yw hysbysu'r Swyddog drwy broses fewnol a fydd yn diwygio'r cyfrif rhent ac yn cynnig cyngor o ran unrhyw hawliadau budd-dal posibl.

Pan delir rhent ar gyfer y cyfnod dan sylw gan fudd-dal tai cymwys, ymgeisir i ddychwelyd unrhyw swm a or-dalwyd i'r Adran Gwaith a Phensiynau neu'r adran Budd-dal Tai i adlewyrchu'r rhent y codwyd ar y Deiliad Contract/Deiliaid Contractau yn y gorffennol. Gall hyn arwain at newid budd-dal i'r Deiliad Contract a gwneir pob ymdrech i'w hysbysu am yr effaith hon.

### 6.2 Adleoli (symud dros dro)

Pan fydd angen adleoli, bydd Beacon Cymru, os oes angen, yn diwygio swm y rhent sydd ar y contract i fodloni'r telerau adleoli y cytunwyd arnynt, yn unol â'r Polisi Rheoli Tai. Ni fydd rhaid talu am y llety amgen.

### 6.3 Cam-drin Domestig / Diogelu

Mae Beacon Cymru yn cydnabod y gall cam-drin domestig arwain at yr angen i aros mewn llety dros dro neu lety amgen. Gall bwriad gan breswylwyr i ddychwelyd i'w cartref arwain at dalu elfen dai'r Credyd Cynhwysol neu'r Budd-dal ar gyfer y cartref parhaol blaenorol a'r llety amgen dros dro. Os nad oes bwriad i ddychwelyd, yna efallai y rhoddir rhybudd.

Gweler hefyd ein Polisïau Cam-drin Domestig a Diogelu ar wahân.

### 6.4 Twyll

Dylai'r Swyddog(ion) perthnasol gasglu gwybodaeth am bryderon ynghylch twyll a'i chyfeirio at y Rheolwr Tai Cymunedol neu Uwch Swyddog penodedig os yw'n pennu bod hynny'n angenrheidiol.

Mae gan Beacon Cymru ddyletswydd, pan fo'n derbyn budd-dal preswylydd, i sicrhau y gwneir yr Awdurdod Lleol neu'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i amgylchiadau preswylydd a allai effeithio ar ei hawliad neu ei ddyfarniad.

### 6.5 Cerbydau Modur / Parcio

Pan fo ôl-ddyledion rhent wedi cyrraedd swm sydd cyfwerth â 3 mis neu 14 wythnos o ôl-ddyledion rhent, rhoddir mis o rybudd i unrhyw le parcio y telir amdano.

### 6.6. Olyniaeth

Bydd Beacon Cymru yn parhau i godi rhent a thaliadau gwasanaeth ar ôl marwolaeth deiliad contract, hyd at ddiwedd y contract. Caiff unrhyw swm sy'n ddyledus i Beacon Cymru ei hawlio o ystad y person hwnnw sydd wedi marw. Gall Beacon Cymru, yn ddibynnol ar bob achos yn unigol, ganiatáu deiliadaeth yn ystod y cyfnod cyn olynu. Dylai unrhyw olynwyr posibl hysbysu Beacon Cymru am Ysgutorion Ewyllys ac unrhyw gronfeydd ystad sydd ar gael.

### 6.7 Ansolfedd

Pan fo'r Deiliad Contract yn chwilio am gyngor sy'n arwain at ansolfedd, bydd Beacon Cymru yn dilyn ei Bolisi Ansolfedd a'r prosesau ar gyfer Gorchmynion Rhyddhau Dyled, Methdaliadau a Threfniadau Gwirfoddol Unigol.

### 6.8 Seibiant

Pan gaiff Deiliad Contract ei roi yn y Cynllun Seibiant Dyledion, bydd Beacon Cymru yn rhewi pob gweithgarwch casglu dyled, sy'n cynnwys camau cyfreithiol ac adfer ôl-ddyledion rhent, tan fod y cyfnod seibiant dynodedig yn dirwyn i ben a deuir o hyd i ddatrysiad addas ar gyfer y ddyled. Bydd Beacon Cymru yn parhau i gasglu Rhent a Thaliadau parhaus drwy ei brosesau arferol.

### 6.9 Ailgodi Tâl

Bydd Beacon Cymru yn casglu taliadau ailgodi yn unol â'i Bolisi Cynnal a Chadw (Atodiad 9).

## 7. Deddfwriaeth Berthnasol

Bydd Beacon Cymru yn sicrhau bod y polisi ôl-ddyledion rhent yn bodloni gofynion deddfwriaethol a gofynion o ran arferion da i wneud y mwyaf o'r incwm a gesglir a lleihau ôl-ddyledion rhent.

Nodir y fframwaith statudol ar gyfer casglu incwm ac adennill rhent yn Neddfau Tai 1985 ac 1988 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sy'n darparu seiliau cyfreithiol dros chwilio i feddu eiddo tenant/contract a fforffedu lesau.

Nodir y seiliau cyfreithiol dros feddu yn Neddfau Tai 1985 ac 1988. Mae Adran 21 Deddf Tai 1988 yn rhoi hawl awtomatig i'r landlord feddu ar ôl i gontract cyfnod penodol, megis Contract Prawf, ddod i ben, ac mae Adran 2 y ddeddf honno'n darparu Seiliau 8, 10 a 11 (fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Tai 1996 ar gyfer tenantiaeth sicr / tenantiaeth byrddaliad sicr). Mae Atodiad 2 Deddf 1985 yn llywodraethu tenantiaethau diogel. Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, RHAN 9, PENNOD 3, Torri Contract, Adran 157.

Mae'r polisi hwn yn ystyried gofynion:

- Deddf(au) Tai 1985, 1988, 1996 a 2004
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Deddf Troi Allan 1977
- Deddf Cyfraith Eiddo 1925
- Deddf Diogelu Data 1984 (fel y'i diwygiwyd 1998)
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (Rheoliad (UE) 2016/679)
  Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Diwygio Lles 2012, 2015 a 2016
- Deddf y Coronafeirws 2020
- Rheoliadau'r Cynllun Seibiant Dyledion (Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl) (Cymru a Lloegr) 2020
- Deddf Ansolfedd 1986
- Fframwaith Rheoleiddio Llywodraeth Cymru

Mae Beacon Cymru wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal a gweithredir y polisi hwn yn deg ac yn gyfartal. Ni fydd Beacon Cymru yn gwahaniaethu, yn aflonyddu nac yn gwneud cam ag unrhyw ddioddefwr, tyst, troseddwr honedig nac unrhyw un arall sydd ynghlwm ar sail unrhyw nodwedd(ion) gwarchodedig.

Dyma'r nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb:

- Oedran
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Rhyw
- Anabledd
- Hil
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Ailbennu rhywedd
- Crefydd neu Gred
- Statws Priodasol/Partneriaeth Sifil

Mae'n rhaid i BCG, wrth roi ei swyddogaethau rheoli tai ar waith, roi sylw gofalus i'r angen i wneud y pethau canlynol:

a) gwaredu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu than y Ddeddf hon;

b) gwella cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu. Mae hyn yn cynnwys yr angen i wneud y pethau hyn:

   (i) cael gwared ar yr anfanteision a ddioddefir gan y bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol o ran anfanteision sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno, neu leihau'r anfanteision;

   (ii) cymryd camau i fodloni anghenion y bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl nad ydynt yn ei rhannu;

   (iii) annog y bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall y mae cyfranogiad gan bobl o'r fath yn anghymesur o isel.

c) mabwysiadu cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu. Mae hyn yn cynnwys yr angen i wneud y pethau hyn:

   (i) mynd i'r afael â rhagfarn, a

   (ii) hyrwyddo dealltwriaeth.

Nid awdurdod cyhoeddus yw Beacon Cymru, ond mae'n rhoi swyddogaethau cyhoeddus ar waith wrth ddyrannu a rheoli tai cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i Beacon Cymru ystyried y materion a drafodir uchod.

Gall cydymffurfio â dyletswyddau yn yr adran hon gynnwys trin rhai pobl yn fwy ffafriol na phobl eraill; ond nid ystyr hynny yw caniatáu ymddygiad a fyddai fel arall wedi'i wahardd gan neu than y Ddeddf hon.

## 8. Datganiad diogelu data

- Gweithreda'r Grŵp Bolisi Diogelu Data sy'n llywodraethu sut y bydd y sefydliad yn rheoli'r gwaith o gasglu, cadw, prosesu, rheoli a chael gwared ar ddata personol a data categori arbennig unigolion. Dyluniwyd y Polisi i ymgorffori'r holl ofynion cyfreithiol a gynhwysir yn y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 a'r holl ganllawiau a'r arferion gorau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## 9. Y Gymraeg

Mae'r Grŵp yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well pan gânt wneud hynny yn yr iaith o'u dewis. Felly, byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg os oes cais am hynny, a'u bod o ansawdd dda ac yn cael eu darparu'n brydlon.

## 10. Gwiriad Asesu Effaith ar Gydraddoldeb

| Beth yw'r gweithgareddau o ddydd i ddydd dan y polisi, swyddogaeth, penderfyniad neu broses hon? |
|---|
| Casglu a rheoli cyfrifon rhent. |

| A ydych chi'n asesu newidiadau i un o'r polisïau, arferion, penderfyniadau neu wasanaethau canlynol? | Ticiwch Yma |
|---|---|
| Penderfyniad strategol ar gyllideb | |
| Gweithgaredd creu grant | |
| Newid i gyflawni gwasanaeth | X |
| ASB | |
| Atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw a/neu Safon Ansawdd Tai Cymru | |
| Rhent | X |
| Dyraniadau neu osodiadau | |
| Polisi recriwtio neu dalu | |
| Cyfathrebu neu gyswllt â thenantiaid | X |
| Polisi neu benderfyniad sy'n effeithio ar denantiaid, gweithwyr neu'r gymuned ehangach | X |
| Polisi neu arfer mawr sy'n effeithio'n sylweddol ar sut y cyflawnir swyddogaethau o ran pobl â nodweddion gwarchodedig | |
| Mae'n berthnasol i weithgareddau y dangoswyd yn flaenorol eu bod yn bwysig i nodweddion penodol | X |
| Mae'n berthnasol i bolisi/arfer lle mae posibilrwydd sylweddol o leihau anghydraddoldeb neu wella canlyniadau | X |
| Mae'n berthnasol i faes sydd ag anghydraddoldebau hysbys e.e. tai hygyrch, bylchau cyflog, aflonyddu ar sail hil neu homoffobia, cyfathrebu | X |
| Mae'n berthnasol i faes sydd â diffyg data, tystiolaeth neu ymchwil cyhoeddedig | |

**Os oes tic wrth unrhyw un o'r uchod – ewch ymlaen i'r Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb (i ddilyn y dudalen hon)**

| A oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb? | |
|---|---|

| Os nad oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, eglurwch y penderfyniad yn y blwch isod: |
|---|
| Ni ddiwygiwyd y Polisi, ond cafodd ei ddiweddaru i fod yn berthnasol ar draws Beacon i gyd. |

Cwblhawyd gan: Paul Langley Dyddiad:
10/09/2025

## 11. Cwynion, anghydfod a phryderon

Gellir cwyno am unrhyw agwedd ar sut y mae Beacon Cymru yn gwneud penderfyniadau a rhoi'r polisi hwn ar waith drwy bolisi gwyno'r cwmni. Mae modd gwneud hynny drwy gysylltu â Beacon dros y ffôn, drwy e-bost, sgwrs fyw neu drwy anfon llythyr.